



Merched y Wawr



Tegwen Morris: Cyfarwyddwr Cenedlaethol
Canolfan Genedlaethol Merched y Wawr, Stryd yr Efail,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 1JH
Rhif Ffôn: 01970 611 661

E-bost: swyddfa@merchedywawr.cymru Gwefan: www.merchedywawr.cymru

Rhif Elusen: 506789

29 Medi 2020

Annwyl Ysgrifennydd/Cysylltydd

Gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel - rydym fel staff a swyddogion yn meddwl llawer amdanoch yn ystod y cyfnod anodd yma.

Atodaf ddau gopi caled o'r cwis hwyl ar gyfer eich cangen/clwb a gobeithio y bydd modd i chi gael o leiaf dwy aelod i gystadlu. Mae croeso i chi wneud copiau pellach a byddwn yn e-bostio copi atoch os oes gennym gyfeiriad e-bost. Mae croeso i unrhyw un sy'n aelod gael copi trwy e-bost trwy gysylltu gyda'r swyddfa yn Aberystwyth.

Gobeithio eich bod wedi derbyn rhifyn dwbl o gylchgrawn Y Wawr ar ddechrau Medi, ac fe fydd y rhifyn nesaf allan ar Dachwedd y 1af. Os oes anhawster wrth gasglu'r Wawr, cofiwch gysylltu gyda mi.

Mae cyfres o bodlediadau hefyd wedi cael eu paratoi a maent yn ddifyr iawn i wrando arnynt - gweler y manylion ar gefn y llythyr yma.

Rydym yn ddiolchgar iawn o dderbyn eich lluniau fel cangen/clwb ac yn eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol fel llun y dydd. Cofiwch os ydych yn medru cael mynediad i dechnoleg fod gennym wefan, cyfrif gweplyfr/facebook, sianel YouTube a hefyd tudalennau Curo'r Corona'n Coginio, Crefftio ac yn y Cartref. Diolch i bawb sydd wedi cefnogi a chyfrannu at y cynnwys a sydd wedi cefnogi y llyfr "Curo'r Corona'n Coginio"

Atodaf hefyd fanylion y Ffair Aeaf rithiol - byddwn yn ddiolchgar iawn petai modd i chi hyrwyddo hyn yn eang.

Cofiwch fod cynllun ffonio ffrind yn parhau. Byddwn hefyd yn trefnu casglu yr holl flodau gobaith ar ddechrau mis Mawrth 2021. Yn amgaaedig hefyd mae Cystadleuaeth Cardiau Nadolig a cherddi 2021. Mae ychydig o rhai eleni ar ôl os ydych yn dymuno.

Yn sgil derbyn nawdd gan y Loteri fe fydd digwyddiadau dros y ddwy flynedd nesaf - felly cofiwch edrych allan amdanant!

Os oes unrhyw un angen cymorth i fynd ar Zoom, eto mae croeso i chi gysylltu gyda ni ac fe wnawn eich cynorthwyo. Cadwch yn ddiogel a phob lwc gyda'r cwis hwyl!

Cofion cynnes iawn a diolch Tegwen

Tegwen Morris
Cyfarwyddwr Cenedlaethol

Podlediadau Rhifyn Hydref 2020 y Wawr

01/09 - Curo'r Corona a Llaw ar y Llyw
08/09 - Ffasiwn gan Felicity Haf
15/09 - Mam a Merch: Ann Siriol Davies a Mari Grug
22/09 - Aelodau yn torri Record Byd
24/09 - Merched Crefftus Clwyd
26/09 - Beth wnaethoch chi adeg y cyfnod clo, Mamgu?
28/09 - Evan a Trebor
30/09 - Y Pump Mawr
01/10 - Rysait Teisen Lap
02/10 - Llwyddiant Menter Deuluol Taldraeth
03/10 - O'r Hen Wlad i'r Wladfa
04/10 - Ewyllysiau
06/10 - Lliw a Llun Llys Llewelyn
08/10 - Lemwn/Cefndir a rysait
10/10 - Cadw traddodiad teuluol tair cenhedlaeth
12/10 - Brian Llewelyn a'i ferched
14/10 - Gwasg Honno
16/10 - 'Nabod y gangen: Betws y Coed
18/10 - Cadw traddodiad ei milltir sgwar: Eleri Lewis
20/10 - Merched
22/10 - Salon y Beudy
24/10 - Rhannu'r Iaith
26/10 - Cangen Cylch Aeron
28/10 - Ein Dysgwyr Disglair
30/10 - Dysgwyr Disglair yr Ŵyl Haf

Podlediadau Rhifyn Hydref 2020 y Wawr

Ar gael:



Facebook -
Merched y Wawr



YouTube -
Merched y Wawr



App AM -
Merched y Wawr